(Cyhoeddwyd | Issued : 04/03/2026)

**DEDDF DRWYDDEDU 2003 | LICENSING ACT 2003**
TRWYDDED ANHEDDAU | PREMISES LICENCE

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

**Rhif trwydded | Premises licence number:** **PRM 0179 (Cyhoeddwyd | Issued : 04/03/2026)**

**Rhan 1 – Manylion am y safle | Part 1 - Premises details**

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad:**<br>**Postal address of premises, or if none, ordnance survey map reference or description:**<br>**THE HOPTIMIST**<br>**HEOL ALEXANDRA / ROAD** | |
| **Tref bost \| Post town**<br>**ABERYSTWYTH** | **Côd Post \| Post cod**<br>**SY23 1LE** |
| **Rhif ffôn \| Telephone number**<br>**01970 625069** | |

| |
|---|
| **Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau \| Where the licence is time limited the dates**<br>**NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED**<br>**PREMISES LICENCE IS NOT TIME LIMITED** |
| **Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded:**<br>**Licensable activities authorised by the licence:**<br><br>**ADLONIANT \| REGULATED ENTERTAINMENT**<br><br>**FFILMIAU / FILMS**<br>**CHWARAEON DAN DO / INDOOR SPORTING EVENTS**<br>**CERDDORIAETH FYW \| LIVE MUSIC**<br>**CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO \| RECORDED MUSIC**<br><br>**ADWERTHU ALCOHOL \| SALE BY RETAIL OF ALCOHOL** |

**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**
**The times the licence authorises the carrying out of licensable activities**

**ADLONIANT | REGULATED ENTERTAINMENT**

**FFILMIAU / FILMS**
**CHWARAEON DAN DO / INDOOR SPORTING EVENTS**
**CERDDORIAETH FYW | LIVE MUSIC**
**CERDDORIAETH WEDI'U RECORDIO | RECORDED MUSIC**

**ADWERTHU ALCOHOL | SALE BY RETAIL OF ALCOHOL**

**SUL-IAU / SUN-THURS: 10:00-00:00**
**GWE-SAD / FRI-SAT: 10:00-01:00**

**Oriau agor y safle | The opening hours of the premises**

**SUL-IAU / SUN-THURS: 10:00-00:30**
**GWE-SAD / FRI-SAT: 10:00-01:30**

**AMSERAU ANSAFONOL:**
**Pan bydd Prif Digwyddiad Chwaraeon neu Adloniant o statws megis Rownd Derfynol Cwpan y Byd yn Rygbi/Pel Droed, Teitl y Byd yn Cwffio, Gemau Profion Llewod Prydeinig, Cwpan Golff 'Ryder', Criced rhyngwladol neu achlysuron megis seremoni'r Oscars a 'Live Aid' yn Hemisffer y De neu ardal gyda gwahaniaeth amser I agor a cyflenwi alcohol 30 munud cyn a 30 munud wedi'r digwyddiad ac i ymuno'r oriau os ydynt yn cwrdd neu'n gorgyffwrdd. Bydd brecwastau, te a coffi ar gael.**

**POB GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY:**
**1af Ionawr – Un awr ychwanegol**
**1af Mawrth (Dydd Gwyl Dewi) – Un awr ychwanegol**
**17fed Mawrth (Diwrnod 'St Patrick') – Un awr ychwanegol**
**Dydd Gwener Groglith – Un awr ychwanegol**
**Dydd Sadwrn Pasg – Un awr ychwanegol**
**Dydd Llun Pasg – Un awr ychwanegol**
**Gwyl y Banc Mai (Gwener, Sadwrn, Sul a Llun) – Un awr ychwanegol i bob diwrnod**
**Gwyl Banc Mai (Sulgwyn) (Gwener, Sadwrn, Sul a Llun) – Un awr ychwanegol i bob diwrnod**
**Gwyl y Banc Awst (Gwener, Sadwrn, Sul a Llun) – Un awr ychwanegol i bob diwrnod**
**Noswyl Nadolig – Dwy awr ychwanegol**
**Dydd San Steffan – Un awr ychwanegol**

**NON-STANDARD TIMINGS:**
**When there is a Major Sporting or Entertainment event that shall be of the stature such as the Rugby / Football world cup final, World Title fights, British Lions test matches, Ruder Cup Golf, International cricket or occasions such as the Oscars ceremony and Live Aid in the Southern Hemisphere or an area with a time difference to open and serve alcohol 30 minutes before and 30 minutes after the event and co join the hours should they meet or overlap. Breakfasts teas and coffees will be available**

| |
|---|
| **ALL LICENSED ACTIVITIES**<br>**On days listed below the additional hours (these in addition to those listed on the left) are to be permitted for license activity 1st January 1hr, 1st March (St Davids day) 1hr, 17th March (St Patricks day) 1hr, May Bank Holiday Friday 1hr, Saturday prior 1hr, Sunday prior 1hr, May Bank Holiday Monday 1hr, Sunday prior 1hr, May Bank Holiday(Whitsun) Monday 1hr, August Bank Holiday Friday prior 1hr, Saturday prior 1hr, Sunday prior 1hr, Bank Holiday Monday 1hr, Christmas Eve 24 December 2hrs, Boxing Day 27th December 1hr** |
| **Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**<br>**Where the licence authorises supplies of alcohol whether these are on and/ or off supplies**<br><br>**AR AC ODDI AR Y SAFLE \| ON AND OFF SALES** |
| **Enw, cyfeiriad (cofrestredig), rhif ffôn ac e-bost (os yw'n berthnasol) deilydd y drwydded safle \| Name, (registered) address, telephone number and email (where relevant) of holder of premises licence**<br><br>**VALIANT ASSET POLAR LTD**<br>**3RD FLOOR**<br>**5 LOWER TEMPLE STREET**<br>**BIRMINGAM**<br>**B2 4JD** |
| **Rhif cofrestredig y deilydd, er enghraifft rhif cwmni, rhif elusen (os yw'n berthnasol)**<br>**Registered number of holder, for example company number, charity number (where applicable)**<br><br>**15503600** |
| **Enw, cyfeiriad a rhif ffôn Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol \| Name, address and telephone number of designated premises supervisor where the premises licence authorises the supply of alcohol**<br><br>**DAISY DRAPER** |
| **Rhif trwydded bersonol ac enw'r awdurdod sy'n rhoi'r drwydded bersonol a ddelir gan y Goruchwyliwr Safle dynodedig os yw'r drwydded safle yn caniatáu cyflenwi alcohol**<br>**Personal licence number and issuing authority of personal licence held by designated premises supervisor where the premises licence authorises for the supply of alcohol**<br><br>**CER 1702**<br><br>**CYNGOR SIR CEREDIGION / COUNTY COUNCIL** |

## ATODIAD 1 - AMODAU GORFODOL

### 1 Amodau gorfodol pan fydd trwydded yn awdurdodi cyflenwi alcohol

(1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi cyflenwi alcohol, rhaid i'r drwydded gynnwys yr amodau canlynol.
(2) Yr amod cyntaf yw na ellir cyflenwi alcohol dan y drwydded safle-
 (a) ar adeg pan nad oes yna oruchwyliwr safle dynodedig yn unol â'r drwydded safle, neu
 (b) ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr safle dynodedig drwydded bersonol neu pan fydd ei drwydded bersonol wedi'i hatal.
(3) Yr ail amod yw bod unrhyw alcohol a gyflenwir dan y drwydded safle'n gorfod cael ei gyflenwi neu'i awdurdodi gan berson sydd â thrwydded bersonol.

### 2 Amod gorfodol: dangos ffilmiau

(1) Pan fydd trwydded safle'n awdurdodi dangos ffilmiau, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod mynediad i blant pan fydd unrhyw ffilm yn cael ei dangos yn cael ei gyfyngu yn unol â'r adran hon.
(2) Pan fydd y corff categoreiddio ffilmiau'n cael ei nodi yn y drwydded, oni bai bod is-adran (3)(b) yn berthnasol, rhaid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan y corff hwnnw.
(3) (a) pan nad yw'r corff categoreiddio ffilmiau wedi'i nodi yn y drwydded, neu
 (b) pan fydd yr awdurdod trwyddedu wedi hysbysu deiliad y drwydded bod yr is-adran hon yn berthnasol i'r ffilm dan sylw, dylid cyfyngu mynediad i blant yn unol ag unrhyw argymhelliad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu hwnnw.
(4) Yn yr adran hon -
Mae "plant" yn golygu pobl dan 18 oed; ac mae
"corff categoreiddio ffilmiau" yn golygu'r person neu'r personau a ddynodwyd fel yr awdurdod dan adran 4 o Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 (c.39) (yr awdurdod sy'n pennu addasrwydd ffilmiau fideo ar gyfer categoreiddio).

### 3 Amod gorfodol: goruchwylio drysau

(1) Pan fydd trwydded safle'n cynnwys amod bod yn rhaid i un berson neu ragor fod ar yr eiddo ar adegau penodol i gwblhau gweithgaredd diogelwch, rhaid i'r drwydded gynnwys amod bod yn rhaid i unrhyw berson o'r fath feddu ar drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
(2) Ond does dim byd yn is-adran (1) sy'n gofyn am osod amod o'r fath -
 (a) ar gyfer safleoedd o fewn paragraff 8(3)(a) o Atodlen 2 Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c.12) (safleoedd gyda thrwyddedau safle sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu
 (b) ar gyfer safleoedd mewn perthynas ag-
  (i) unrhyw achlysur a grybwyllir ym mharagraff 8(3)(b) neu (c) o'r Atodlen honno (safleoedd sy'n cael eu defnyddio gan glwb sydd â thystysgrif safle clwb yn unig, dan hysbysiad digwyddiad dros dro sy'n awdurdodi dramâu neu ffilmiau, neu dan drwydded hapchwarae, neu
  (ii) unrhyw achlysur o fewn paragraff 8(3)(d) o'r Atodlen honno (achlysuron a bennir gan reoliadau dan y Ddeddf honno).
(3) At ddibenion yr adran hon -
 (a) mae "gweithgaredd diogelwch" yn golygu gweithgaredd y mae paragraff 2(1)(a) o'r Atodlen honno'n berthnasol ar ei gyfer, a
 (b) bod paragraff 8(5) o'r Atodlen honno (dehongli cyfeiriadau at achlysur) yn berthnasol, am ei fod yn berthnasol mewn perthynas â pharagraff 8 o'r Atodlen honno.

**Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2014**

**Yn effeithiol o 6 Ebrill 2014**

**1.** Rhaid i berson perthnasol sicrhau na chaiff unrhyw alcohol ei werthu na'i gyflenwi i'w yfed ar y safle nac oddi arno am bris sy'n llai na'r pris a ganiateir.

**2.** At ddibenion yr amod a nodir ym mharagraff 1-

(a) mae "treth" i'w dehongli yn unol â Deddf Trethi ar Ddiodydd Alcoholaidd 1979(**6)**;

(b) "y pris a ganiateir" yw'r pris a geir drwy ddefnyddio'r fformiwla –

P = D + (DxV)

pan mai –

(i) P yw'r pris a ganiateir
(ii) D yw cyfradd y dreth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol, a
(iii) V yw cyfradd y dreth ar werth sy'n daladwy mewn perthynas â'r alcohol fel pe bai'r dreth ar werth yn cael ei chodi ar ddyddiad gwerthu neu gyflenwi'r alcohol

(c) ystyr "person perthnasol", mewn perthynas â safle lle y mae trwydded safle mewn grym, yw
(i) Deiliad y drwydded safle,
(ii) Goruchwylydd dynodedig y safle (os oes un) mewn perthynas â thrwydded o'r fath, neu
(iii) Deiliad trwydded bersonol sy'n cyflenwi alcohol o dan drwydded o'r fath neu sy'n caniatáu iddo gael ei gyflenwi;

(d) ystyr "person perthnasol', mewn perthynas â safle lle y mae tystysgrif safle clwb mewn grym, yw unrhyw un o aelodau neu swyddogion y clwb sy'n bresennol ar y safle mewn rôl sy'n galluogi'r aelod neu'r swyddog i atal y cyflenwad o dan sylw; ac

(e) ystyr "treth ar werth" yw treth ar werth sy'n daladwy yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994(7)

**3.** Os nad yw'r pris a ganiateir a roddir gan Baragraff (b) o baragraff 2 (ar wahân i'r paragraff hwn) yn rhif cyfan o geiniogau, rhaid cymryd mai'r pris a roddir gan yr is-baragraff hwnnw yw'r pris a roddir mewn gwirionedd gan yr is-baragraff hwnnw wedi'i dalgrynnu i fyny i'r geiniog agosaf.

**4.** (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys os yw'r pris a ganiateir gan Baragraff (b) o baragraff 2 ar y naill ddiwrnod ("y diwrnod cyntaf") yn wahanol i'r pris a ganiateir ar y diwrnod nesaf ("yr ail ddiwrnod") o ganlyniad i newid i gyfradd y dreth neu'r dreth ar werth.

(2) Mae'r pris a ganiateir sy'n gymwys ar y diwrnod cyntaf yn gymwys i werthiant neu gyflenwad alcohol sy'n digwydd cyn i'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar yr ail ddiwrnod ddod i ben.

## Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) (Diwygio) 2014

Mae'r Amodau Gorfodol isod yn **disodli** Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Amodau Trwyddedu Gorfodol) 2010 a daethant i rym ar **1 Hydref 2014.**

**Mae amodau 1 i 4 yn cyfeirio at yr holl safleoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle. Mae amod 3 yn berthnasol i safleoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.**

**1.** (1) Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau nad yw staff ar y safle perthnasol yn ymgymryd â, yn trefnu neu'n cymryd rhan mewn unrhyw hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle.

(2) Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu un neu fwy o'r gweithgareddau a ganlyn, neu weithgareddau sy'n sylweddol debyg, sy'n digwydd er mwyn hyrwyddo gwerthiant neu gyflenwad o alcohol i'w yfed ar y safle -

(a) gemau neu weithgareddau eraill sy'n gofyn am neu'n hybu, neu sydd wedi'u dylunio i ofyn neu i hybu unigolion i -

(i) yfed swm o alcohol o fewn cyfyngiad amser (heblaw yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn terfyn y cyfnod y mae'r unigolyn cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol), neu

(ii) yfed cymaint o alcohol â phosib (un ai mewn cyfyngiad amser neu fel arall);

(b) darparu swm diddiwedd neu amhenodol o alcohol am ddim neu am bris penodedig neu ar ddisgownt i'r cyhoedd neu i grŵp a gaiff ei ddiffinio gan nodwedd benodol sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(c) darparu alcohol am ddim neu ar ddisgownt neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog neu i wobrwyo prynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai mewn modd sy'n peri risg sylweddol o danseilio amcan trwyddedu;

(d) gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu bamffledi ar, neu yng nghyffiniau'r safle, a ellir ei ystyried yn rhesymol fel ei fod yn caniatáu, neu'n annog neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn modd ffafriol;

(e) unigolyn yn tywallt alcohol yn uniongyrchol i geg unigolyn arall (heblaw pan fo unigolyn yn methu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

**2.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau fod dŵr yfed am ddim yn cael ei ddarparu ar gais i gwsmeriaid pan fod hyn ar gael yn rhesymol.

**3.** (1) Rhaid i ddeilydd y drwydded eiddo neu ddeilydd y dystysgrif eiddo clwb sicrhau y gweithredir polisi gwirio oed ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Rhaid i oruchwyliwr dynodedig y safle mewn perthynas â'r drwydded eiddo sicrhau bod gwerthiant alcohol ar y safle yn digwydd yn unol â'r polisi gwirio oed.

(3) Rhaid i'r polisi fynnu bod unigolion sy'n edrych dan 18 oed i'r person cyfrifol (neu'r oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos ar gais, cyn cael prynu alcohol, tystiolaeth yn cynnwys eu llun, dyddiad geni a naill ai -

(a) marc holograffig, neu

(b) nodwedd uwchfioled.

**4.** Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau -

(a) os caiff unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol eu gwerthu neu eu cyflenwi i'w hyfed ar y safle (heblaw am ddiodydd alcohol sy'n cael eu gwerthu neu eu cyflenwi ar ôl eu gwneud yn barod i'w gwerthu mewn cynhwysydd wedi'i gau'n ddiogel), bydd yr alcohol ar werth i gwsmeriaid yn y mesurau a ganlyn -

(i) cwrw neu seidr: ½ peint;

(ii) jin, rym, fodca neu wisgi: 25 ml neu 35 ml; a

(iii) gwin llonydd mewn gwydryn: 125 ml;

(b) caiff y mesurau hyn eu dangos mewn bwydlen, ar restr brisiau neu ddeunydd printiedig arall sydd ar gael i gwsmeriaid ar y safle; a

(c) lle nad yw cwsmer, mewn perthynas â gwerthiant alcohol, yn manylu ar y swm o alcohol i'w werthu, bydd y gwerthwr yn hysbysu'r cwsmer fod y mesurau hyn ar gael.

**Annex 1 - MANDATORY CONDITIONS**

**1 Mandatory conditions where licence authorises supply of alcohol**

(1) Where a premises licence authorises the supply of alcohol, the licence must include the following conditions.
(2) The first condition is that no supply of alcohol may be made under the premises licence-
(a) at a time when there is no designated premises supervisor in respect of the premises licence, or
(b) at a time when the designated premises supervisor does not hold a personal licence or his personal licence is suspended.
(3) The second condition is that every supply of alcohol under the premises licence must be made or authorised by a person who holds a personal licence.

**2 Mandatory condition: exhibition of films**

(1) Where a premises licence authorises the exhibition of films, the licence must include a condition requiring the admission of children to the exhibition of any film to be restricted in accordance with this section.
(2) Where the film classification body is specified in the licence, unless subsection (3)(b) applies, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that body.
(3) Where-
(a) the film classification body is not specified in the licence, or
(b) the relevant licensing authority has notified the holder of the licence that this subsection applies to the film in question, admission of children must be restricted in accordance with any recommendation made by that licensing authority.
(4) In this section - "children" means persons aged under 18; and "film classification body" means the person or persons designated as the authority under section 4 of the Video Recordings Act 1984 (c.39) (authority to determine suitability of video works for classification).

**3 Mandatory condition: door supervision**

(1) Where a premises licence includes a condition that at specified times one or more individuals must be at the premises to carry out a security activity, the licence must include a condition that each such individual must be licensed by the Security Industry Authority.
(2) But nothing in subsection (1) requires such a condition to be imposed-
(a) in respect of premises within paragraph 8(3)(a) of Schedule 2 to the Private Security Industry Act 2001 (c.12) (premises with premises licenses authorising plays or films), or
(b) in respect of premises in relation to-
(i) any occasion mentioned in paragraph 8(3)(b) or (c) of that Schedule (premises being used exclusively by club with club premises certificate, under a temporary event notice authorising plays or films or under a gaming licence), or
(ii) any occasion within paragraph 8(3)(d) of that Schedule (occasions prescribed by regulations under that Act).
(3) For the purposes of this section-

(a) "security activity" means an activity to which paragraph 2(1)(a) of that Schedule applies, and

(b) paragraph 8(5) of that Schedule (interpretation of references to an occasion) applies as it applies in relation to paragraph 8 of that Schedule.

## The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2014

**With effect from 28th May 2014**

1. A relevant person shall ensure that no alcohol is sold or supplied for consumption on or off the premises for a price which is less than the permitted price.

2. For the purposes of the condition set out in paragraph 1-

   (a) “duty” is to be construed in accordance with the Alcoholic Liquor Duties Act 1979;

   (b) “permitted price” is the price found by applying the formula –

   P = D + (DxV)
   where –
   (i) P is the permitted price

   (ii) D is the rate of duty chargeable in relation to the alcohol as if the duty were charged on the date of the sale or supply of the alcohol, and

   (iii) V is the rate of value added tax chargeable in relation to the alcohol as if the value added tax were charged on the date of the sale or supply of the alcohol

   (c) “relevant person” means, in relation to premises in respect of which there is in force a premises licence –

   (i) The holder of the premises licence,

   (ii) The designated premises supervisor (if any) in respect of such a licence, or

   (iii) The personal licence holder who makes or authorises a supply of alcohol under such a licence;

   (d) “relevant person” means, in relation to premises in respect of which there is in force a club premises certificate, any member or officer of the club present on the premises in a capacity which enables the member or officer to prevent the supply in question; and

   (e) “valued added tax” means value added tax charged in accordance with the Value Added Tax Act 1994

3. Where the permitted price given by Paragraph (b) of paragraph 2 would (apart from this paragraph) not be a whole number of pennies, the price given by that sub-paragraph shall be taken to be the price actually given by that sub-paragraph rounded up to the nearest penny.

**4.** (1) Sub-paragraph (2) applies where the permitted price by Paragraph (b) of paragraph 2 on a day ("the first day") would be different from the permitted price on the next day ("the second day") as a result of a change to the rate of duty or value added tax.

(2) The permitted price which would apply on the first day applies to sales or supplies of alcohol which take place before the expiry of the period of 14 days beginning on the second day.

**The Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) (Amendment) Order 2014**

The below Mandatory Conditions **replace** the Licensing Act 2003 (Mandatory Licensing Conditions) Order 2010 and comes into effect **on 1st October 2014**

**Conditions 1 to 4 refer to all premises that sell or supply alcohol for consumption on the premises. Condition 3 is relevant to Premises that sell for consumption off the premises.**

**1.** (1) The responsible person must ensure that staff on relevant premises do not carry out, arrange or participate in any irresponsible promotions in relation to the premises.

(2) In this paragraph, an irresponsible promotion means any one or more of the following activities, or substantially similar activities, carried on for the purpose of encouraging the sale or supply of alcohol for consumption on the premises—

(a) games or other activities which require or encourage, or are designed to require or encourage, individuals to—

(i) drink a quantity of alcohol within a time limit (other than to drink alcohol sold or supplied on the premises before the cessation of the period in which the responsible person is authorised to sell or supply alcohol), or

(ii) drink as much alcohol as possible (whether within a time limit or otherwise);

(b) provision of unlimited or unspecified quantities of alcohol free or for a fixed or discounted fee to the public or to a group defined by a particular characteristic in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(c) provision of free or discounted alcohol or any other thing as a prize to encourage or reward the purchase and consumption of alcohol over a period of 24 hours or less in a manner which carries a significant risk of undermining a licensing objective;

(d) selling or supplying alcohol in association with promotional posters or flyers on, or in the vicinity of, the premises which can reasonably be considered to condone, encourage or glamorise anti-social behaviour or to refer to the effects of drunkenness in any favourable manner;

(e) dispensing alcohol directly by one person into the mouth of another (other than where that other person is unable to drink without assistance by reason of disability).

**2.** The responsible person must ensure that free potable water is provided on request to customers where it is reasonably available.

**3.** (1) The premises licence holder or club premises certificate holder must ensure that an age verification policy is adopted in respect of the premises in relation to the sale or supply of alcohol.

(2) The designated premises supervisor in relation to the premises licence must ensure that the supply of alcohol at the premises is carried on in accordance with the age verification policy.

(3) The policy must require individuals who appear to the responsible person to be under 18years of age (or such older age as may be specified in the policy) to produce on request, before being served alcohol, identification bearing their photograph, date of birth and either—

(a) a holographic mark, or
(b) an ultraviolet feature.

**4.** The responsible person must ensure that—

(a) where any of the following alcoholic drinks is sold or supplied for consumption on the premises (other than alcoholic drinks sold or supplied having been made up in advance ready for sale or supply in a securely closed container) it is available to customers in the following measures—

(i) beer or cider: ½ pint;
(ii) gin, rum, vodka or whisky: 25 ml or 35 ml; and
(iii) still wine in a glass: 125 ml;

(b) these measures are displayed in a menu, price list or other printed material which is available to customers on the premises; and
(c) where a customer does not in relation to a sale of alcohol specify the quantity of alcohol to be sold, the customer is made aware that these measures are available.”

**Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu**

**Cyffredinol – pob un o'r pedwar amcan trwyddedu**

Mae'r amodau canlynol wedi'u hatodi at y Drwydded Safle a amlinellir uchod:

- Mae'r Drwydded wedi'i chyfyngu i werthiant alcohol i'w yfed ar, neu oddi ar y safle, yn ystod oriau'r drwydded
- Bydd y Drwydded Safle'n amodol ar osod yr holl amodau ymhlygedig a addaswyd o Ddeddf Trwyddedu 1964
- Caniateir 30 munud i unrhyw rai sydd wedi cael pryd o fwyd ar y safle i orffen eu diodydd
- Gellir gwerthu alcohol ar y safle i'w yfed gan unrhyw rai sy'n preswylio ar y safle a'u gwesteion bone fide, ar eu cost eu hunain, 24 awr y dydd
- Datganiad y cwmni i'w drafod gyda PL ac MP
- Mae'r trwyddedai'n cadw'r hawl i symud unrhyw offer tân, peiriannau AWP, y peiriant sigaréts a/neu unrhyw wrthrychau tebyg all amharu ar allu unigolion ar y safle i ddefnyddio'r allanfeydd neu'r llwybrau dianc
- Caniateir 30 munud i bobl orffen eu diodydd gan sicrhau bod cwsmeriaid yn cael digon o amser i fynd i'r toiled a gadael y safle.
- Hyfforddiant staff – cynhelir a chofnodir proses sefydlu cyn i staff ddechrau ar eu dyletswyddau. Byddant yn cwblhau Gwobr Efydd SAB sy'n cynnwys hyfforddiant cyfreithiol, Iechyd a Diogelwch, a gwasanaeth, o fewn 14 diwrnod o ddechrau gweithio
- Mae system CCTV wedi'i gosod ac fe'i gweithredir yn unol â gofynion yr heddlu a'r awdurdod trwyddedu. Bydd y camerâu ar waith trwy'r adeg y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd. Mae yna gyfleuster storio am gyfnod o 31 diwrnod. Bydd y delweddau ar gael cyn gynted ag y bo'n ymarferol os ydy'r heddlu am eu gweld. Mae hysbysiadau i'w gweld ar y safle'n rhybuddio bod camerâu CCTV ar waith.

**Atal troseddau ac anhrefn**

- Polisïau cytunedig - Heddlu ac Awdurdod Lleol
- Cefnogi mentrau lleol/cenedlaethol
- Bydd Goruchwylwyr Drysau wedi'u cofrestru'n gywir gyda'r SIA a byddant yn gwisgo bathodyn enw fel prawf o'r cofrestriad. Bydd eu gwisg yn hawdd ei hadnabod ar y system CCTV. Bydd y gofrestr staff drysau'n cael ei diweddaru'n rheolaidd a bydd ar gael os gwneir cais i'w gweld.
- Hyfforddiant staff – cynhelir a chofnodir proses sefydlu cyn i staff ddechrau ar eu dyletswyddau. Byddant yn cwblhau Gwobr Efydd SAB sy'n cynnwys hyfforddiant cyfreithiol, Iechyd a Diogelwch, a gwasanaeth, o fewn 14 diwrnod o ddechrau gweithio
- Mae system CCTV wedi'i gosod ac fe'i gweithredir yn unol â gofynion yr heddlu a'r awdurdod trwyddedu. Bydd y camerâu ar waith trwy'r adeg y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd. Mae yna gyfleuster storio am gyfnod o 31 diwrnod. Bydd y delweddau ar gael cyn gynted ag y bo'n ymarferol os bydd yr heddlu am eu gweld. Hyfforddir staff i gydymffurfio â'r ddarpariaeth hon.
- Poteli / Gwydrau – Bydd unrhyw boteli a gwydrau'n cael eu symud o ardaloedd cyhoeddus cyn gynted â'u bod yn wag neu'n segur. Ni chaniateir i gwsmeriaid fynd ag alcohol neu ddiodydd ysgafn o'r safle mewn cynwysyddion agored. Ni chaniateir mynediad i gwsmeriaid sy'n cario gwydrau neu boteli sydd wedi'u hagor/heb eu hagor i'r safle ar unrhyw adeg
- Setiau radio (mewnol a rhai sydd â chyswllt ag Ystafell Reoli'r Heddlu) - bydd y busnes yn ymuno â chynllun Radio Net y Siambr Fasnach neu gynllun tebyg. Bydd yr offer ar waith trwy'r adeg y

mae'r safle ar agor i'r cyhoedd. Rhoddir gwybod i'r heddlu am unrhyw drosedd neu anhrefn cyn gynted â phosib trwy ddefnyddio 'radio net'

- Ni oddefir unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gwrthodir serfio unrhyw un sy'n feddw, yn swnllyd, yn ymddwyn yn dreisgar, sydd dan oed, neu sy'n ceisio prynu diodydd i rai sydd dan oed
- Gofynion prawf oedran - mae polisi prawf oedran ar gael a gofynnir am brawf oddi wrth unrhyw un sy'n edrych dan 21 oed. Pasbort neu drwydded yrru yw'r unig ddogfennau adnabod derbyniol. Mae staff sydd wedi'u hyfforddi'n arwyddo datganiad o ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau
- Ni fyddwn yn cynnig sesiynau diodydd rhad, a byddwn yn hyrwyddo yfed synhwyrol yn ein holl ymgyrchoedd.
- Cyffuriau – gan gydweithio gyda'r heddlu a'r awdurdod trwyddedu, rydym yn gweithredu polisi Goddef Dim.
- Hysbysiad mewn perthynas â mynediad i blant, defnydd o CCTV ac ati.

**<u>Diogelwch cyhoeddus</u>**

- Diogelwch Tân - Rydym wedi cynnal asesiad Risg Tân addas ar y safle ac wedi rhoi'r mesurau rheoli angenrheidiol ar waith. Mae drysau pob allanfa'n hawdd eu gweithredu heb ddefnyddio allwedd, cerdyn, cod neu ddull tebyg. Mae'r holl ddrysau'n cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn. Cedwir cofnod o'r gwiriadau hyn ac maent ar gael os gofynnir am eu gweld. Mae'r holl ddrysau tân yn cael eu cynnal i gau eu hunain yn effeithiol, ac ni ddefnyddir unrhyw ddyfeisiau nad ydynt wedi'u cymeradwyo i'w dal ar agor. Cedwir y drysau gwrth-dân i siafftiau, pibelli a chypyrddau ar glo. Mae ymylon grisiau wedi'u goleuo'n briodol fel bod modd eu gweld yn glir. Cedwir unrhyw ddefnydd crog, llenni ac addurniadau dros dro mewn cyflwr gwrthfflam. Mae'r seddi meddal o ddefnydd gwrth-dân sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau diogelwch tân diweddaraf. Cynhelir driliau tân a phrofir y goleuadau argyfwng bob wythnos, ac mae'r cofnodion ar gael os gofynnir am eu gweld. Mae arwyddion wedi'u gosod ger pob allanfa dân a llwybr dianc yn unol â BS5499. Bydd polisi gwacáu yn ei le sy'n bodloni gofynion yr awdurdod tân, a bydd yr holl staff yn cael hyfforddiant ar y polisi. Mae'r gorffeniad ar y waliau a'r nenfwd yn un gwrth-dân hyd y safon briodol. Mae'r allanfeydd yn agor am allan, neu maent wedi'u clymu ar agor os mai dyna'r achos.
- Iechyd a Diogelwch: Cynhelir Asesiadau Risg a Hyfforddiant, a chedwir cofnod o'r cwbl yn y ffeiliau personél a'r logiau busnes.
- Ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau mawr a chynllunio i sicrhau lefelau staff priodol
- Poteli / Gwydrau – Bydd unrhyw boteli a gwydrau'n cael eu symud o ardaloedd cyhoeddus cyn gynted â'u bod yn wag neu'n segur. Ni chaniateir i gwsmeriaid fynd ag alcohol neu ddiodydd ysgafn o'r safle mewn cynwysyddion agored.
- Gwesteion anabl – Mae'r staff wedi'u briffio a'u hyfforddi i gynorthwyo. Mae trefniadau digonol ar y safle i sicrhau bod pobl anabl yn gadael yn ddiogel mewn argyfwng
- Goleuadau - pan na fydd digon o olau dydd, darperir a chynhelir golau addas a digonol ymhob ardal a ddefnyddir gan y cyhoedd. Mae arwyddion diogelwch tân wedi'u goleuo'n ddigonol. Mae goleuadau argyfwng wedi'u gosod a chânt eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Mae batris y goleuadau argyfwng wedi'u gwefru'n llawn cyn y caniateir mynediad i'r cyhoedd. Mae digon o nerth ym matris y goleuadau argyfwng i allu gwacáu'r safle'n llwyr. Profir y goleuadau argyfwng bob wythnos, ac mae cofnodion ar gael i'r sawl sydd am eu gweld.
- Tystysgrifau Diogelwch - mae gan y safle adroddiad cyfnodol gosodiadau trydanol NICEIC neu ECA boddhaol. Mae gan y safle dystysgrif archwiliad CORGI mewn perthynas ag unrhyw foeler

neu gyfarpar nwy.  Mae gan y safle yswiriant atebolrwydd cyhoeddus addas a thystysgrif archwilio ar gyfer y larwm tân.

- Mae system CCTV wedi'i gosod ac mae'n gweithredu'n unol â'r Polisi a gofynion yr awdurdod trwyddedu.  Bydd y camerâu ar waith trwy'r adeg y bydd y safle ar agor i'r cyhoedd.  Mae yna gyfleuster storio am gyfnod o 31 diwrnod.  Bydd y delweddau ar gael cyn gynted ag y bo'n ymarferol os bydd yr heddlu am eu gweld.  Bydd staff wedi'u hyfforddi i gydymffurfio â'r ddarpariaeth hon.
- Cedwir Llyfr damweiniau/digwyddiadau ar y safle ar gyfer y staff a'r cyhoedd, a fydd ar gael i'r staff.
- Ni oddefir unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gwrthodir serfio unrhyw un sy'n feddw, yn swnllyd, yn ymddwyn yn dreisgar, sydd dan oed, neu sy'n ceisio prynu diodydd i rai sydd dan oed. Cedwir cofnod a fydd ar gael os gofynnir am ei weld.

**<u>Atal niwsans cyhoeddus</u>**

- Mae'r oriau y gwnaed cais amdanynt yn hyrwyddo'r amcan hwn
- Poteli / Gwydrau – caniateir gosod poteli mewn cynwysyddion y tu allan i'r safle rhwng 9.30 a 16.00 yn unig
- Mae system CCTV wedi'i gosod ac mae'n gweithredu'n unol â'r Polisi a gofynion yr awdurdod trwyddedu.  Bydd y camerâu ar waith trwy'r adeg y bydd y safle ar agor i'r cyhoedd.  Mae yna gyfleuster storio am gyfnod o 31 diwrnod.  Bydd y delweddau ar gael cyn gynted ag y bo'n ymarferol os bydd yr heddlu am eu gweld.  Bydd staff wedi'u hyfforddi i gydymffurfio â'r ddarpariaeth hon.
- Pan fo angen bydd staff yn trefnu tacsis i gludo cwsmeriaid o'r safle
- Bydd cerddoriaeth fyw'n dod i ben pan roddir y gorau i serfio alcohol
- Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio yn yr ardd
- Mae teclynnau cyfyngu sŵn wedi'u ffitio ar yr offer chwyddseinio ac wedi'u gosod ar lefel a gytunwyd gyda Swyddogion Amddiffyn yr Amgylchedd
- Mae system hidlo aer ar y safle sy'n golygu nad oes angen agor drysau a ffenestri i awyru'r adeilad
- Mae gan y safle gontract casglu gwastraff gyda Chyngor Ceredigion, sy'n symud y gwastraff deirgwaith yr wythnos
- Ni oddefir unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gwrthodir serfio unrhyw un  sy'n feddw, yn swnllyd, yn ymddwyn yn dreisgar, sydd dan oed, neu sy'n ceisio prynu diodydd i rai sydd dan oed. Cedwir cofnod a fydd ar gael os gofynnir am ei weld.
- Bydd Goruchwylwyr Drysau wedi'u cofrestru'n gywir gyda'r SIA a byddant yn gwisgo bathodyn enw fel prawf o'r cofrestriad.  Bydd eu gwisg yn hawdd ei hadnabod ar y system CCTV.  Bydd y gofrestr staff drysau'n cael ei diweddaru'n rheolaidd a bydd ar gael os gwneir cais i'w gweld.

**<u>Amddiffyn plant rhag niwed</u>**

- NI chaniateir plant ar y safle ar unrhyw adeg heb gwmni oedolyn
- Ni chaniateir unrhyw blant ar y safle, ac eithrio plant y staff/trwyddedai …(?)
- Mae'r peiriant AWP wedi'i leoli fel bod modd ei weld o'r bar
- Polisi 'Prawf Oedran' - Hyfforddiant staff - cynhelir a chofnodir proses sefydlu cyn i staff ddechrau ar eu dyletswyddau.  Byddant yn cwblhau Gwobr Efydd SAB sy'n cynnwys hyfforddiant cyfreithiol, Iechyd a Diogelwch, a gwasanaeth, o fewn 14 diwrnod o ddechrau gweithio. Gofynion prawf oedran - mae yna bolisi prawf oedran a gofynnir am brawf oddi wrth unrhyw un sy'n edrych dan 21

oed. Pasbort neu drwydded yrru yw'r unig ddogfennau adnabod derbyniol. Mae staff sydd wedi'u hyfforddi'n arwyddo datganiad o ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau. Hyfforddir staff ynghylch gwerthu/cyflenwi i rai dan oed. Hyfforddir staff ynghylch caniatáu mynediad i blant. Hyfforddir staff ynghylch diogelwch plant pan maent ar y safle.

- Ni oddefir unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gwrthodir serfio unrhyw un sy'n feddw, yn swnllyd, yn ymddwyn yn dreisgar, sydd dan oed, neu sy'n ceisio prynu diodydd i rai sydd dan oed. Cedwir cofnod a fydd ar gael os gofynnir am ei weld.
- Cedwir at god ymarfer Grŵp Portman mewn perthynas â marchnata a/neu fanwerthu diodydd alcoholig

**Annex 2 - Conditions consistent with the operating Schedule**

**General- all four licensing objectives**

The following conditions are attached to the Premises Licence detailed above:

- The Licence is limited to the sale of alcohol for consumption on or off the premises during the hours:
- The Premises Licence will be subject to the imposition of all embedded conditions converted from the Licensing Act 1964.
- For persons who have consumed a meal at the premises, 30 minutes drinking up time is allowed
- For those persons who are resident in this premises alocohol can be consumed and sold to those persons and their bone fide guests at their expense 24 hours a day
- Company statement to be discussed with PL AND MP
- The licensee reserves the right to move fire appliances, AWP machines. Cigarette machine and or other similar objects which may adversely impact on the ability if individuals on the premises to use exits or escape routes
- Thirty minute ”drinking up” time will allow appropriate dispersal of customers and the use of toilets at closing time
- Staff Training – documented induction will take place prior to commencement of duties. Staff will complete SAB Bronze Award training which includes legislative, H&S and service within 14 days of starting employment
- CCTV is installed and working to the satisfaction of the police and licensing authority. They will be maintained and operated at all times the premises is open to the public. There is a storage facility to cover a period of thirty-one days. Images shall be produced on request of the police as soon as practicable.  There are notices displayed on the premises advising that CCTV is in operation

**The prevention of crime and disorder**

- Agreed policies – Police & Local Authority
- Support of local/ national initiatives
- Door Supervisors will be correctly registered with SIA, will display name badge as proof of registration. Clothing that can easily clearly be identified on CCTV will be worn. The door staff registered will maintained and made available on request
- Staff Training – documented induction will take place prior to commencement of duties. Staff will complete SAB Bronze Award training which includes legislative, H&S and service within 14 days of starting employment
- CCTV is installed and working to satisfaction of the Policy and licensing authority. They will maintain and operated at all times the premises is open to the public. There is a storage facility to cover a period of thirty-one days. Images shall be produced on request of the police as soon as practicable. Staff will be trained in order to comply with this provision
- Bottles / Glasses – All bottles and glasses are removed from public areas as soon as they are finished with or empty. Customers are not permitted to take open containers of alcoholic or soft drinks from the premises. Customers carrying open or sealed bottles or glasses are not admitted to the premises at any time
- Radios (internal & linked to Police Control Room) – the business will subscribe to the chamber of Commerce Radio Net scheme or similar. The equipment will be on at all times that the premises are open to the public. All instances of crime and disorder will be reported to the police as soon as possible using ‘radio net’.

- Zero tolerance to anti social behaviour to include refusal to those intoxicated, noisy, aggressive behaviour, underage or those who attempt to purchase for those underage
- Proof of age requirements – A proof of age policy exits challenging everyone appearing to be under 21. Passport and Driving license are the only acceptable proof of age. Trained staff sign a declaration of understanding of their responsibilities
- No happy hour or all inclusive discount offers we will promote sensible drinking in our campaigns
- Drugs – working with the police and licensing authority we operate a Zero tolerance
- Notice in respect of admission for children, use of CCTV etc

**Public safety**

- Fire Safety – We have conducted a suitable Fire Risk assessment at the premises and implemented the necessary control measures. All exit doors are easily operable without the use of a key, card, code or similar means. All exit doors are regularly checked to ensure they function satisfactorily. Records of these checks are kept and can be produced on request. All fire door are maintained effectively self-closing and will not be held open other than by approved devices. Fire resisting doors to shafts, ducts and cupboards are kept locked shut. Step edges are appropriately highlighted so as to be conspicuous. Hanging, curtains and temporary decorations are maintained in a flame retardant condition. Upholstered seating is fire retardant and complies with current fire safety regulations. Fire drill and emergency lighting tests are conducted weekly, records are available on request. All fire exits and means of escape are signed in accordance with BS5499. An evacuation policy will be in place that is to the satisfaction of the fire authority and all staff will be trainedin this policy. Wall and ceiling finishes are fire resistant to the appropriate standard. Exits open outwards or are secured in the open position if this is the case
- Health and Safety: Risk assessments & Training is carried out and documented in personnel files and logs at business
- Awareness of major events and planning to ensure appropriate staffing levels
- Bottles / Glasses – All bottles and glasses are removed from public areas as soon as they are finished with or empty. Customers are not permitted to take open containers of alcoholic or soft drinks from the premises
- Disabled guest – Staff are briefed and trained to assist. Adequate arrangements exit at the premises to enable the safe evacuation of disabled people in the event of an emergency
- Lighting – in the absence of adequate daylight suitable and sufficient lighting is provided and maintained in any area accessible to the public. Fire safety signs are adequately illuminated. Emergency lighting is installed and regularly maintained. Emergency lighting batteries are fully charged before the admission of the public. The emergency lightng battery has a capacity to allow adequate evacuation of the premises. Emergency lighting tests are conducted weekly with records available on request
- Safety Certificates – the premises have a satisfactory NICEIC or ECA periodic electrical installation report. The premises have a CORGI certificate of inspection in respect of any gas boiler or appliances. The premises has suitable public liability insurance and a certificate of inspection for the fire detection alarm
- CCTV is installed and working to satisfaction of the Policy and licensing authority. They will maintain and operated at all times the premises is open to the public. There is a storage facility to cover a period of thirty-one days. Images shall be produced on request of the police as soon as practicable. Staff will be trained in order to comply with this provision
- Accident / incident book on site for staff and public and accessible staff

- Zero tolerance to anti social behaviour to include refusal to those intoxicated, noisy, aggressive behaviour, underage or those who attempt to purchase for those underage. A log will be maintained and available on request

**The prevention of public nuisance**

- The hours applied for have promoted this objective
- Bottles / Glassware – the placing of bottles into receptacles outside the premises is only permitted to take place between the hours of 09:30 and 16:00
- CCTV is installed and working to satisfaction of the Policy and licensing authority. They will maintain and operated at all times the premises is open to the public. There is a storage facility to cover a period of thirty-one days. Images shall be produced on request of the police as soon as practicable. Staff will be trained in order to comply with this provision
- When required staff will organise taxis to transport customers off the premises
- Live music will stop when service of alcohol stops
- Playing of recorded music in the garden is not permitted
- Noise limiters are fitted to amplification equipment and have been set at a level agreed with Ceredigion Environmental Protection Officers
- The premises has air filtration to avoid the need to open doors and windows for ventilation
- The premises has a waste collection contract with Ceredigion Council who remove waste 3 times a week
- Zero tolerance to anti social behaviour to include refusal to those intoxicated, noisy, aggressive behaviour, underage or those who attempt to purchase for those underage. A log will be maintained and available on request
- Door Supervisors will be correctly registered with SIA, will display name badge as proof of registration. Clothing that can easily clearly be identified on CCTV will be worn. The door staff registered will maintained and made available on request

**The protection of children from harm**

- Unaccompanied children NOT permitted on the premises at any time
- No children are permitted on the premises with the exception of the licensees / staff s children who may be assign through
- AWP is positioned in sight of the bar counter
- ‘Proof of age’ Policy – Staff Training – documented induction will take place prior to commence of duties. Staff will complete SAB Bronze Award training, which includes legislative, H&S and service within 14 days of starting employment. Proof of age requirements - A proof of age policy exists challenging anyone who appears to be under 21. Passport and driving licenses are only acceptable proof of age. Trained staff sign a declaration of understanding of their responsibilities. Staff training in respect of sale / supply to underage. Staff training in respect to admittance of children. Staff training in respect of safety of children whilst in the premises
- Zero tolerance to anti social behaviour to include refusal to those intoxicated, noisy, aggressive behaviour, underage or those who attempt to purchase for those underage. A log will be maintained and available on request
- Adherence to Portman Group’s Code of practice in respect of the marketing and / or retailing of alcoholic drinks

**Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawiad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**

**CYFARFOD CYFRYNGU: Lord Beechings 17eg Chwefror 2006**
**PRESENNOL: Cynrychiolydd SA Brain. Colin Parr, Swyddog Trwyddedu. Trigolion Stryd yr Undod.**

**MATERION A GYTUNWYD:**

1. Drysau a ffenestri i fod ar gau yn ystod adloniant rheoledig, ac eithrio ar gyfer cyrraedd a gadael.
2. EHO i gynghori ynghylch lefelau sŵn fel bod y lleiaf posib o sŵn yn dod o'r adeilad
3. Y drws ochr i Stryd yr Undod i'w ddefnyddio fel allanfa dân yn unig fel a ganlyn: Sul-Mercher o 10.30pm. Iau-Sad o 11.00pm
4. Dim cerddoriaeth wedi'i seinchwyddo yn yr ardd gwrw
5. Arwyddion 'allanfa dân yn unig' i'w gosod ger yr allanfa gefn i'r ardd gwrw
6. Camerâu CCTV ger y ddwy allanfa i'r safle
7. Goruchwyliwr Safle Dynodedig i fod yn aelod o'r cynllun gwarchod tafarndai (Pubwatch) lleol

Tynnwyd y sylwadau yn ôl yn sgil y cytundebau uchod.

**Annex 3 - Conditions attached after a hearing by the licensing authority/ Mediation meeting**

**MEDIATION MEETING: Lord Beechings 17th February 2006.**
**PRESENT: SA Brain Representative. Colin Parr, Licensing Officer. Union Street Residents.**

**MATTERS AGREED:**

8. Doors and windows to be closed during regulated entertainment, save for access and egress.
9. EHO to advise on noise levels to minimize fugitive noise.
10. The side door to Union Street shall be used only as a fire escape as follows:- Sun-Wed from 10.30pm. Thurs-Sat from 11.00pm.
11. No amplified music in beer garden.
12. Fire exit only signs to be placed at rear exit to beer garden.
13. CCTV provided at both exits to the premises.
14. DPS to be a member of the local pubwatch scheme.

Representations withdrawn consequent to the above agreements.

**Atodiad 4 – Cynlluniau | Annex 4 – Plans**

